



Amcan Llesiant 10

Heneiddio'n Dda - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio

Sut y byddwn yn gwneud hyn? Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed |
|----------|---|----------------------------------|
| A | Byddwn yn datblygu model iechyd a gofal 'cymdeithasol' sy'n canolbwyntio ar lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol yn hytrach nag iechyd gwael | |
| 1 | Byddwn yn buddsoddi a gwella ein gweithlu er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni Amcanion Llesiant ein poblogaethau a amlinellir ar lefelau lleol. <i>(Hefyd yn Amcan Llesiant 9)</i> | Ebrill 2019 |
| 2 | Byddwn yn parhau i anelu at leihau cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty tra byddant yn aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed <i>(PAM/025)</i> (2017/18 - 47 o gleientiaid – 2.50 cyfradd) | 42 o gleientiaid 2.21 cyfradd |
| 3 | Byddwn yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu effeithiol priodol ar waith gan y Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol i ddarparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth er mwyn cydymffurfio â'n Dyletswydd Statudol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant MF5-52a <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcanion Llesiant 10 ac 11)</i> | Mawrth 2019 bob 6 mis |
| 4 | Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn ac yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant drwy gyflwyno cyllideb ar y cyd rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd a gofal preswyl. MF5-52b | Mawrth 2019 |
| 5 | Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn cydymffurfio'n llwyr â nhw, drwy sefydlu cyd-bwyllgor rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol gyda phartneriaid perthnasol. MF5 52c | Mawrth 2019 |
| 6 | Byddwn yn parhau i leihau nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl <i>(PAM/015)</i> (Canlyniad 2017/18 – 161 diwrnod) | 160 diwrnod |
| B | Darparu ystod eang o wasanaethau ac ymyriadau. | |
| 1 | Byddwn yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn modd sy'n sicrhau canlyniadau i'n poblogaeth a thegwch o ran hynny. | Mawrth 2019 |
| 2 | Byddwn yn clustnodi'r adnoddau ffisegol sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant eu poblogaeth drwy borth gwybodaeth penodedig ar-lein megis "Dewis.Cymru". <i>(Hefyd yn Amcanion Llesiant 10 ac 11)</i> | Mawrth 2019 |
| 3 | Byddwn yn parhau i wella darpariaeth cyfleoedd dydd i bobl hŷn ar draws y sir. MF5-53 | Mawrth 2019 |
| 4 | Byddwn yn cyflwyno rhaglen fuddsoddi ar gyfer Cartrefi Gofal a Chynlluniau Tai Gwarchod drwy gyflwyno anghenion y dyfodol a threfniadau gofal preswyl cynaliadwy yn ardal Llanelli i sicrhau darpariaeth llety priodol yn yr ardal. MF5-54 | Mawrth 2019 |
| 5 | Cynnal darpariaeth fewnol gref a chynaliadwy yn y Cyngor ar gyfer gofal cartref a phreswyl. MF5-55 | Mawrth 2021 |
| 6 | Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach y ddarpariaeth a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn newis iaith defnyddwyr y gwasanaeth a sicrhau cydymffurfiaeth â'r 'Cynnig Actif'. MF5-56 <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 14)</i> | Mawrth 2019 |

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed |
|----------|--|-------------------------|
| C | Nodi sut y gall cymunedau lleol gyfrannu at gefnogi llesiant ac annibyniaeth <i>(Gweler Amcan Llesiant 9 hefyd - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel)</i> | |
| 1 | Gall pawb, boed yn oedolyn neu'n blentyn, gael llais – cyfle – hawl – i gael ei glywed fel unigolyn, fel dinesydd, i lywio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd, gofynnir i gleientiaid a ydynt yn fodlon ar eu gofal a'u cefnogaeth. Dangosodd arolwg 2017/18 fod 86.8% yn fodlon. Fe wnawn bopeth o fewn ein gallu i wella hyn. <i>(PAM024)</i> | Dim targed wedi'i bennu |
| 2 | Fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd, gofynnir i ofalwyr a ydynt yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i ddal ati â'u rôl ofalu. Dangosodd arolwg 2017/18 fod 62.1% yn teimlo eu bod yn cael hynny. Fe wnawn bopeth o fewn ein gallu i wella hyn. <i>(PAM/026)</i> | Dim targed wedi'i bennu |
| 3 | Gweithio gyda phartneriaid yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a darparwyr y trydydd sector i sicrhau bod cymorth a gwasanaethau gofal iechyd meddwl priodol ar gael. MF5-57 | Mawrth 2019 |
| 4 | Byddwn yn darparu cymorth i ofalwyr, a gofalwyr ifanc yn benodol, i'w galluogi i barhau i ddarparu'r gofal amhrisiadwy maent yn ei gynnig i berthnasau a ffrindiau mewn angen. MF5-58 <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 11)</i> | Mawrth 2019 |

| Mesurau Llwyddiant | |
|---|--|
| Cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty tra byddant yn aros i gael gofal cymdeithasol <i>(PAM/025)</i> | |
| Yn cytuno bod Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal <i>(Arolwg Cenedlaethol Cymru)</i> | |
| Nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl <i>(PAM/015)</i> | |